

Sefyllfaoedd a gweithdrefnau

Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r UE

Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

Ymgyrchwyr refferendwm sydd am
wybod mwy am reolau cydweithio yn
ystod y refferendwm ar aelodaeth y
Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd

Cydweithio

CPE Ar-lein
EUR1

Cynnwys:

Beth yw gwariant ar refferendwm

Gweithio gydag ymgyrchwyr eraill

Cofnodi gwariant ar refferendwm

Adrodd ar ôl y refferendwm

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cynghori. Os nad ydych yn siŵr sut mae unrhyw rai o'r rheolau hyn yn gymwys i chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Rydym hefyd yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau ymchwiliol a sancsiynau, lle bo hynny'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni ein nodau ac amcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. Mae mwy o wybodaeth am ddull gorfodi'r Comisiwn yn

www.electoralcommission.org.uk/cymru/party-finance/enforcement

2

Cydweithio ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y rheolau ar gydweithio a gwariant yn ystod y refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r ddogfen yn cwmpasu:

- Cydweithio ag ymgyrchwyr refferendwm eraill
- Yr hyn sydd ac nad yw'n wariant ar y refferendwm
- Adrodd ar ôl y refferendwm

Dogfennau cysylltiedig:

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)
- [Y broses ddynodi ar gyfer Refferendwm yr UE](#)

Ffurflenni gwariant ar ymgyrchu

- [CPE Ar-lein](#)

Papurau arbenigol

- [Rhannu gwariant ar ymgyrchu](#)

Crynodeb

Caiff gwariant ar ymgyrch refferendwm ei reoleiddio dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015.

Bydd y trosolwg hwn yn rhoi dealltwriaeth i chi o'r ffordd y mae cydweithio ag ymgyrchwyr eraill yn effeithio ar y gwariant tuag at eich terfyn a'r hyn sydd angen i chi ei gofnodi a rhoi gwybod i ni amdano.

4

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae gennym gyfrifoldebau statudol penodol mewn perthynas â'r refferendwm ar aelodaeth y DU o'r UE.

Ein hamcanion ar gyfer y refferendwm yw:

- y dylai gael ei gynnal yn dda ac arwain at ganlyniadau a dderbynnir
- y dylai fod uniondeb a thryloywder o ran arian a gwariant ar ymgyrchu

Yn y cyfnod cyn refferendwm, ceir cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn "cyfnod y refferendwm". Yn ystod y cyfnod hwn, bydd rhai rheolau ar ymgyrchu a gwariant yn gymwys.

Bydd cyfnod y refferendwm yn dechrau ar 15 Ebrill 2016 ac yn dod i ben ar 23 Mehefin 2016. Mae'r rheolau cydweithio a therfynau gwario yn gymwys yn ystod y cyfnod hwn.

Cydweithio ag ymgyrchwyr eraill

Efallai y gwnewch benderfynu gweithio gydag ymgyrchwyr eraill fel rhan o gynllun neu drefniant cydgysylltiedig. Gall gweithio gydag ymgyrchwyr eraill gyfrannu at ymgyrchu effeithiol ar gyfer canlyniad penodol.

Ceir rheolau gwario sy'n gymwys os ydych chi neu ymgyrchydd rydych yn gweithio gydag ef yn gwario arian fel rhan o gynllun neu drefniant cydgysylltiedig. Galwn y rhain yn rheolau "cydweithio".

Bydd angen i ymgyrchwyr fod yn ofalus iawn eu bod yn deall y rheolau ar gydweithio. Os na fydd ymgyrchwyr yn dilyn y rheolau gallant fynd y tu hwnt i'w terfynau gwario.



Beth a olygwn gan 'gydweithio'

Mae 'cydweithio' yn golygu gwario arian o ganlyniad i gynllun neu drefniant cydgysylltiedig rhwng dau ymgyrchydd neu fwy yn ystod cyfnod y refferendwm.

Defnyddiwn y geiriau cydweithio ac ymgyrchu ar y cyd i nodi pryd mae ymgyrchwyr yn gwario arian gydag ymgyrchwyr eraill fel rhan o gynllun neu drefniant cydgysylltiedig.

I gael rhagor o wybodaeth am wariant yn ystod Refferendwm yr UE gweler ein [canllawiau](#).

Yr egwyddor arweiniol

Yr egwyddor arweiniol yw y dylech, ym mhob achos, wneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, i weld p'un a ydych chi neu ymgyrchydd arall yn gwario arian fel rhan o gynllun neu drefniant cydgysylltiedig.

Bydd hyn yn syml ar gyfer peth o'r gwariant. Fodd bynnag, mewn rhai sefyllfaoedd gall fod yn anodd penderfynu a ydych yn gwario arian fel rhan o gynllun neu drefniant cyffredin. Dylech wneud asesiad gonest yn seiliedig ar yr holl amgylchiadau. Dylech gadw cofnodion o'ch cynlluniau ymgyrchu i ddangos sut rydych wedi llunio eich asesiad.

6

Yn ein barn ni, rydych yn debygol o fod yn cydweithio, er enghraifft:

- os ydych yn gwario arian ar ymgyrchoedd hysbysebu, taflenni neu ddigwyddiadau ar y cyd
- os ydych yn cydgysylltu eich gwariant ag ymgyrchydd arall - er enghraifft, os ydych yn cytuno y dylai'r ddau ohonoch gwmpasu meysydd, dadleuon neu bleidleiswyr penodol
- os gall ymgyrchydd arall gymeradwyo neu gael dylanwad sylweddol ar eich gwariant gan gynnwys taflenni, gwefannau, sgriptiau ffôn neu ddeunyddiau ymgyrchu eraill

Yn ein barn ni, nid ydych yn cydweithio:

- os ceuwch drafodaethau ag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn cynnwys gwneud penderfyniadau neu gydgyssylltu eich cynlluniau
- os siaradwch mewn digwyddiad a drefnwyd gan ymgyrchydd arall, ond nad ydych yn cymryd rhan mewn unrhyw ffordd arall
- os nad ydych yn ymgynghori ag ymgyrchwyr eraill ynghylch yr hyn y dylech ei ddweud yn eich ymgyrch neu'r ffordd y dylech ei threfnu

Os nad ydych yn siŵr p'un a fyddwch yn cael eich ystyried yn rhywun sy'n cydweithio ag ymgyrchwyr eraill ai peidio, ffoniwch neu [e-bostiwch](#) ni am gyngor.



Rheolau gwario pan fyddwch yn cydweithio

Os ydych yn gwario arian yn ystod cyfnod y refferendwm wrth gydweithio ag un neu fwy o ymgyrchwyr, yna mae rhai rheolau y mae'n rhaid i chi eu dilyn ar gofnodi ac adrodd ar y gwariant hwn. Mae'r rheolau hyn amrywio yn dibynnu ar b'un a ydych yn gweithio gyda grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig neu grŵp ymgyrchu nad yw'n grŵp arweiniol.

Wrth ymgyrchu ar y cyd ag ymgyrchwyr eraill, mae'n bwysig sicrhau eich bod wedi trafod a chynllunio'r gwaith yn fanwl a dylech sicrhau bod gennych gofnod ysgrifenedig o'r cynllun neu'r trefniant cyffredin a llwybr archwilio clir o'r broses gwneud penderfyniadau ac unrhyw wariant.

Cydweithio ag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig

Os ydych yn cydweithio â grwpiau ymgyrchu nad ydynt yn rhai arweiniol yna bydd y gwariant cyfunol ar y refferendwm y bydd pob un ohonoch yn mynd iddo yn cyfrif tuag at y terfynau gwario ar gyfer **pob** ymgyrchydd dan sylw.

Os ydych yn bwriadu gwario dros £10,000 ar ymgyrchu ar y cyd ag ymgyrchydd neu ymgyrchwyr eraill, rhaid i bob un ohonoch gofrestru â ni fel ymgyrchwyr cofrestredig y refferendwm hyd yn oed os bydd unrhyw un ohonoch yn gwario llai na £10,000 ar yr ymgyrch. Mae hyn oherwydd y bydd eich gwariant cyfunol yn uwch na'r trothwy cofrestru o £10,000.

Ar ôl y refferendwm rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig y refferendwm roi gwybod am y canlynol:

- eich gwariant eich hun a wnewch ar wahân i unrhyw ymgyrch ar y cyd
- enwau'r ymgyrchwyr rydych wedi cydweithio â hwy
- manylion am unrhyw wariant yr aethoch iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd
- y cyfanswm a wariwyd gan yr ymgyrchydd neu'r ymgyrchwyr eraill
- cyfanswm y gwariant sy'n cynnwys y gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd ac unrhyw wariant a wnewch ar wahân i unrhyw ymgyrch ar y cyd

Enghraifft A

Mae eich grŵp ymgyrchu a phlaid wleidyddol yn cytuno i gydweithio i gynhyrchu ymgyrch hysbysebu ar ran y ddau ymgyrchydd sy'n cynnwys dylunio, cynhyrchu a dosbarthu taflenni ymgyrchu. Rydych yn gwario £30,000 ar y dyluniad, ac mae'r blaidd wleidyddol yn gwario £25,000.

Rydych hefyd yn gwario £20,000 ar eich ymgyrch eich hun nad yw'n rhan o unrhyw ymgyrch ar y cyd.




Mae gwariant ar y refferendwm yn cynnwys gwerth masnachol llawn eitemau neu wasanaethau a roddwyd am ddim neu a roddwyd am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%. Gweler ein canllawiau am ragor o wybodaeth am wariant tybiannol:

- [Gwariant ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

8

Gan y byddwch yn gwario mwy na £10,000, sy'n cynnwys y symiau rydych chi a'r blaid wleidyddol yn eu gwario ar yr ymgyrch ar y cyd, rhaid i'r ddau ohonoch gofrestru fel ymgyrchwyr cyn gwario mwy na £10,000



Rhaid i chi roi gwybod am y canlynol:

- Eich gwariant eich hun o £20,000 a wnewch ar wahân i unrhyw ymgyrch ar y cyd
- enw'r blaid wleidyddol
- manylion y £30,000 a wariwch fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd
- cyfanswm y gwariant o £25,000 gan y blaid wleidyddol ar yr ymgyrch ar y cyd


- y cyfanswm cyffredinol o £75,000, sy'n cynnwys eich gwariant eich hun a chyfanswm y gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd

Enghraifft B

Rydych chi ac ymgyrchydd arall y refferendwm yn cytuno i wario £7,000 ar ymgyrch ar y cyd ledled y DU a Gibraltar yn ystod cyfnod y refferendwm. Felly, y cyfanswm y mae'r ddau ohonoch yn ei wario drwy gydweithio yw £14,000.

Mae ymgyrchydd arall y refferendwm hefyd yn gwario £11,000 ar ei ymgyrch ei hun nad yw'n rhan o unrhyw ymgyrch ar y cyd.

Gan y byddwch yn gwario mwy na £10,000, sy'n cynnwys y symiau rydych chi a'r ymgyrchydd arall yn eu gwario ar yr ymgyrch ar y cyd, rhaid i'r ddau ohonoch gofrestru fel ymgyrchwyr cyn gwario mwy na £10,000.



Rhaid i chi roi gwybod am y canlynol ar ôl y refferendwm:

10

- enw'r ymgyrchydd rydych wedi cydweithio ag ef
- manylion y £7,000 yr aethoch iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd
- cyfanswm y gwariant o £7,000 yn unig gan yr ymgyrchydd arall a wariwyd fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd
- cyfanswm cyffredinol y gwariant o £14,000, sy'n cynnwys eich gwariant eich hun a chyfanswm y gwariant ar y cyd

Gweithio gyda grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig

Pan fyddwch yn gweithio gyda'ch gilydd mewn ymgyrch ar y cyd gydag ymgyrchydd arweiniol dynodedig bydd yr **holl** wariant yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r grŵp ymgyrchu arweiniol. Fodd bynnag, gallech fod yn ddarostyngedig i ofynion adrodd o hyd yn dibynnu ar faint rydych yn ei wario ar ymgyrchu ar y cyd ac unrhyw wariant ar eich ymgyrchu chi. Ni fydd dim o'r gwariant yr ewch iddo wrth gydweithio â'r ymgyrchydd arweiniol dynodedig yn cyfrif tuag at eich terfyn gwario unigol ar ymgyrchu. Rhaid i'r grŵp ymgyrchu arweiniol gyfrif holl wariant pob un o'r ymgyrchwyr y mae'n cydweithio â hwy tuag at ei derfyn ei hun.



Mae hyn er mwyn helpu grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig i weithio gyda'r rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad y maent yn ei gefnogi yn effeithiol ac yn effeithlon.

Gofynion adrodd ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn ymgyrchwyr arweiniol

- eich gwariant eich hun a wnewch ar wahân i unrhyw ymgyrch ar y cyd
- enwau'r ymgyrchwyr rydych wedi cydweithio â hwy
- manylion am unrhyw wariant yr aethoch iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd
- cyfanswm y terfyn gwario ar gyfer unrhyw wariant a wnewch ar wahân i ymgyrch ar y cyd gyda'r ymgyrchydd arweiniol ac mae'n **eithrio'r** gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd a wnaethoch gyda'r ymgyrchydd arweiniol

Os ydych yn ymgyrchydd nad yw'n ymgyrchydd arweiniol sy'n gweithio gydag ymgyrchydd arweiniol ac rydych am wario dros £10,000 ar ymgyrch ar y cyd gydag ymgyrchydd arweiniol yna rhaid i chi gofrestru â ni cyn gwario dros £10,000.

Rhaid i chi gofrestru cyn i chi wario mwy na £10,000 ar ymgyrchu mewn refferendwm p'un a wnewch chi hynny ar gyfer eich ymgyrch eich hun neu gydag ymgyrchydd arall. Pan fydd ymgyrchydd **anhofrestredig** yn gwario mwy na £10,000 ar ymgyrch bydd trosedd wedi'i chyflawni. Hefyd, os bydd y £10,000 yn cael ei wario tra'n gweithio gyda'r ymgyrchydd dynodedig bydd yn cyfrif tuag at y terfyn ar gyfer yr ymgyrchydd arweiniol dynodedig a'r ymgyrchydd anghofrestredig


12

Enghraifft A

Rydych chi ac ymgyrchydd arweiniol dynodedig y refferendwm yn cytuno i wario £50,000 ar ymgyrch ar y cyd ledled y DU a Gibraltar yn ystod cyfnod y refferendwm. Felly, cyfanswm y gwariant fel rhan o'r cynllun cyffredin yw £100,000.

Rydych hefyd yn gwario £15,000 ar daflen a ddisbarthwch yn annibynnol ar yr ymgyrchydd arweiniol dynodedig. Bydd yr ymgyrchydd arweiniol dynodedig yn gwario £6,000,000 ychwanegol yn ystod cyfnod y refferendwm.

Gan fod cost eich ymgyrchu, gan gynnwys eich gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd yn fwy na £10,000, rhaid i chi gofrestru â ni fel ymgyrchydd refferendwm cofrestredig.



Ar ôl y refferendwm rhaid i chi roi gwybod am y canlynol:

- Eich gwariant eich hun o £15,000 a wnewch ar wahân i unrhyw ymgyrch ar y cyd
- Enw'r ymgyrchydd rydych wedi cydweithio ag ef
- Y gwariant yr aethoch iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd gyda'r ymgyrchydd arweiniol
- Cyfanswm cyffredinol eich terfyn gwario sy'n cynnwys £15,000 sy'n eithrio'r swm a wariwyd gennych gyda'r grŵp ymgyrchu arweiniol

Nid oes angen i chi roi gwybod am y cyfanswm a wariwyd gan yr ymgyrchydd arweiniol


14

Enghraifft B

Rydych yn ymgyrchydd anghofrestredig ac rydych chi a'r ymgyrchydd arweiniol yn cytuno i wario £20,000 yr un ar ymgyrch ar y cyd ledled y DU ar ymgyrch hysbysebu. Cyfanswm y gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd yw £40,000.

Bydd yr ymgyrchydd arweiniol dynodedig yn gwario £5,000,000 ychwanegol yn ystod cyfnod y refferendwm.

Gan eich bod yn bwriadu gwario dros £10,000 rhaid i chi gofrestru â ni cyn mynd i'r gwariant.



Ar ôl y refferendwm rhaid i chi roi gwybod am y canlynol:

- Enw'r ymgyrchydd y gwnaethoch weithio gydag ef
- Manylion unrhyw wariant yr aethoch iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd

Cydweithio ar gyfer grwpiau ymgyrchu arweiniol

Mae'r rheolau cydweithio ar adrodd yn wahanol os ydych yn grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ymgyrchwyr arweiniol dynodedig [yma](#).

Pan fydd ymgyrchwyr arweiniol dynodedig yn cydweithio ag ymgyrchwyr eraill bydd yr holl wariant yn cyfrif tuag at derfyn gwario'r grŵp ymgyrchu arweiniol.

Gofynion adrodd ar gyfer ymgyrchwyr arweiniol dynodedig

- eich gwariant eich hun a wnewch ar wahân i unrhyw ymgyrch ar y cyd
 - enwau'r ymgyrchwyr rydych wedi cydweithio â hwy
 - manylion unrhyw wariant yr aethoch iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd
 - y cyfanswm a wariwyd gan yr ymgyrchydd neu'r ymgyrchwyr eraill
 - cyfanswm y gwariant sy'n cynnwys y gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd ac unrhyw wariant a wnewch ar wahân i unrhyw ymgyrch ar y cyd
-

Rhyngweithio ag ymgyrchwyr eraill

Rhoi i ymgyrchydd arall

Nid cydweithio yw gwneud rhoddion i ymgyrchydd arall.

Fodd bynnag, ni all pleidiau gwleidyddol sydd wedi'u cofrestru yn y DU na phleidiau gwleidyddol a sefydlwyd yn Gibraltar nad ydynt wedi'u cofrestru yn y DU wneud rhoddion i ymgyrchwyr cofrestredig eraill, ac eithrio i'r grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig.

Os ydych yn ymgyrchydd sy'n cael rhoddion, mae rheolau ar dderbyn a rhoi gwybod am roddion. Ceir rhagor o wybodaeth am y rheolau hyn yn [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm](#).

Creu sefydliad newydd i gynnal ymgyrch

Os ydych yn gweithio gyda nifer o ymgyrchwyr refferendwm eraill, efallai y byddwch yn penderfynu creu corff neu sefydliad newydd i gynnal ymgyrch. Gallai'r corff newydd fod, er enghraifft, yn gwmni neu gymdeithas anghorfforedig.

Ar yr amod bod y corff newydd ar wahân ac yn wahanol i'r sefydliadau a'i greodd, yna mae'n debygol o gael ei drin fel sefydliad gwahanol i'r ymgyrchwyr a greodd y corff newydd. Gall hyn fod yn wir hyd yn oed os yw aelodau sefydliadau a greodd y corff newydd yn rhan o'i strwythur rheoli.

Ni fydd gweithgarwch ymgyrchu a wneir gan y corff newydd yn rhan o ymgyrch ar y cyd oni fydd y sefydliad newydd yn cydweithio ag ymgyrchwyr refferendwm eraill. Nid cydweithio yw gwneud rhodd i'r corff newydd.

Os bydd y sefydliad newydd yn gwario neu'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar weithgarwch a reoleiddir yn ystod cyfnod y refferendwm, rhaid iddo gofrestru â ni a dilyn y rheolau ar roddion, gwariant ac adrodd.

Rhodd yw arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau a roddir:

- tuag at wariant ymgyrchydd ar ymgyrch, a
- heb godi tâl neu ar delerau anfasnachol, ac sydd â gwerth o fwy na £500

O dan PPERA, nid yw unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd.

Dim ond rhai mathau o sefydliadau a all gofrestru â ni fel ymgyrchydd refferendwm cofrestredig. Am ragor o wybodaeth, gweler:

Cofrestru fel ymgyrchydd nad yw'n blaid

- [Ymgyrchu a chofrestru ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

Rhannu gwariant

Efallai y bydd yn rhaid i chi rannu costau rhwng ymgyrchwyr gwahanol pan fyddwch yn cydweithio. Efallai y bydd angen i chi rannu eich costau rhwng eitemau a ddefnyddiwyd cyn i gyfnod y refferendwm ddechrau, a'r rhai a ddefnyddiwyd yn ystod y refferendwm neu rhwng eitemau sy'n cyfrif a'r rhai nad ydynt yn cyfrif fel gwariant ar y refferendwm

Ym mhob achos, dylech wneud asesiad gonest, yn seiliedig ar y ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant fel ymgyrchydd refferendwm.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth yn ein Taflen Ffeithiau: [Rhannu gwariant](#).

Pwysig

Rhaid i'r unigolyn cyfrifol allu datgan bod eich ffurflen gwariant yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred.

Cofnodi gwariant ar refferendwm

Rhaid i chi gofnodi'ch holl wariant ar y refferendwm. Bydd angen i chi anfon y wybodaeth hon atom ar eich ffurflen gwariant ar ôl y refferendwm.

Pan fyddwch yn cydweithio ag ymgyrchwyr eraill bydd yn helpu i fodloni eich gofynion adrodd os gwnewch gynllunio gyda'ch gilydd a phennu llwybrau archwilio clir.

Yr hyn y mae angen i chi ei gofnodi

Ar gyfer pob eitem o wariant yr ewch iddi, rhaid i chi gofnodi'r wybodaeth ganlynol i'w rhoi ar eich ffurflen gwariant:

- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth

Rhaid i chi hefyd gadw anfonebau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw wariant dros £200.

Rhaid i chi hefyd gofnodi'r cyfanswm a wariwyd gan yr ymgyrchydd neu'r ymgyrchwyr eraill fel rhan o'r cydweithio. Nid oes angen i chi gynnwys manylion eu gwariant na'r cyfanswm a wariwyd ganddynt pan nad oeddent yn cydweithio.

Pwysig

Os yw eitem yn werth mwy na £500, ac os caiff ei rhoi am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol, gall hefyd fod yn rhodd.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y ddogfen hon:

- [Rhoddion ar gyfer ymgyrchwyr refferendwm yr UE](#)

18

Awdurdodi a thalu'r gwariant ar y refferendwm

Dim ond yr 'unigolyn cyfrifol' a gofrestrwyd gyda ni a phobl a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr unigolyn cyfrifol a all fynd i gostau o ran gwariant ar refferendwm.

Gall awdurdodiadau ymwneud â gwariant ar eitemau penodol, neu hyd at swm penodol.

Mae'r rheolau hyn ar waith er mwyn sicrhau y gellir rheoli'r gwariant a'i gofnodi ac adrodd arno yn gywir.

Os ydych yn gweithio gydag ymgyrchydd arall rhaid i chi sicrhau bod eich unigolyn cyfrifol yn awdurdodi unrhyw wariant ar y cyd.

Dylech sicrhau eich bod yn cadw cofnodion digonol i ddangos bod gennych yr awdurdod i wario arian yn ymgyrchu ar ran ymgyrchydd arall.

Dylech sicrhau bod eich gwirfoddolwyr a'ch ymgyrchwyr yn gwybod pwy all ac na all fynd i gostau.

Ystyr 'mynd i wariant' neu 'fynd i gostau' yw gwneud ymrwymiad cyfreithiol i wario arian, fel cadarnhau archeb.



Adrodd ar ôl y refferendwm

Gwariant ar ymgyrchu o £10,000 neu lai

Os ydych yn ymgyrchydd cofrestredig ac rydych yn gwario £10,000 neu lai yn ymgyrchu'n unigol neu fel rhan o ymgyrch ar y cyd gydag ymgyrchydd arall yn y refferendwm yna nid ydych yn llenwi ffurflen gwariant ar ymgyrch y refferendwm.

Yn lle hynny, rhaid i chi wneud datganiad yn nodi bod cyfanswm eich gwariant yn llai na £10,000. Gallwch wneud hyn [ar-lein](#) neu drwy gwblhau [EUR3A - datganiad o wario llai na £10,000](#).

Gwariant ar ymgyrchu yn fwy na £10,000 gydag ymgyrchydd arall

Os gwariwch fwy na £10,000 yn ymgyrchu'n unigol neu'n gweithio gydag ymgyrchydd arall yn y refferendwm yna rhaid i chi roi gwybod i ni am eich gwariant ar ymgyrch yn eich ffurflen gwariant ar ymgyrchu.

Rhaid i'ch ffurflen gwariant gynnwys y canlynol:

- cofnodion eich gwariant a'ch rhoddion
- anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- datganiad gan yr 'unigolyn cyfrifol' i ddweud bod y ffurflen yn gyflawn a chywir
- enw unrhyw ymgyrchwyr eraill rydych wedi gweithio gyda hwy
- cyfanswm y gwariant yr aeth yr ymgyrchydd/ymgyrchwyr eraill iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd

Os ydych yn cydweithio â'r ymgyrchydd arweiniol ac yn gwario dros £10,000 y tu allan i'r ymgyrch ar y cyd honno yna byddech yn rhoi gwybod am eich terfyn gwario fel cyfanswm y gwariant yr aethoch iddo ar wahân neu gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn ymgyrchwyr arweiniol. Nid ydych yn cynnwys y gwariant yr aethoch iddo drwy weithio gyda'r ymgyrchydd arweiniol, dim ond yr ymgyrchydd arweiniol sy'n cofnodi hyn yn erbyn ei derfyn gwario.

Pwysig

Os na wnaethoch fynd i unrhyw wariant ar y refferendwm, bydd angen i chi ein hysbysu o hyd naill ai [ar-lein](#) neu drwy gwblhau ffurflen [EUR3A](#).

A yw eich gwariant ar ymgyrch dros £250k hefyd, efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno [adroddiad archwilydd](#) cymwys.

20

Gallwch wneud hyn [ar-lein](#) neu drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen [EUR3B - ffurflen gwariant ar ymgyrch y refferendwm](#).

Os ydych wedi gwario dros £250,000 ar eich ymgyrch ar gyfer y refferendwm, bydd angen i chi hefyd gynnwys adroddiad gan archwilydd cymwys.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddyddiadau adrodd yn [Amserlen a dyddiadau cau adrodd ar gyfer Refferendwm yr UE](#).

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y canllawiau a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.

Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu'r cyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch neu e-bostiwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk
